## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r trydydd Gorchymyn Cychwyn sy'n cael ei wneud o dan Ddeddf Tai 2004 ("y Deddf") ac mae'n dwyn i rym yng Nghymru ddarpariaethau pellach sydd yn y Deddf, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol a'r arbedion a wneir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn.

Mae'r Gorchymyn yn dwyn i rym ar 16 Mehefin 2006 ddarpariaethau amrywiol Deddf 2004 a restrir o dan erthygl 2.

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym y rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Rhannau canlynol o'r Deddf ar 16 Mehefin i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym:

Rhan 1, sy'n cyflwyno system newydd i awdurdodau tai lleol ar gyfer asesu amodau tai a gorfodi safonau tai. Mae Rhan 1 yn disodli Rhan 6 o Ddeddf Tai 1985 (hysbysiadau trwsio) ac yn diwygio Rhan 9 o'r Deddf honno (chwalu slymiau).

Rhan 2, sy'n darparu bod yr awdurdodau hynny yn trwyddedu tai amlfeddiannaeth ac sy'n disodli Rhan 11 o Ddeddf Tai 1985.

Rhan 3, sy'n darparu bod yr awdurdodau hynny yn trwyddedu'n ddetholus letyau preswyl eraill.

Rhan 4, sy'n darparu ar gyfer rheolaeth ychwanegol gan yr awdurdodau hynny mewn perthynas â lletyau preswyl drwy wneud gorchmynion rheoli a gorchmynion rheoli anheddau gwag a chyflwyno gorchmynion gorlenwi.

Rhan 7, sy'n darparu ar gyfer tribiwnlysoedd eiddo preswyl ac sy'n cynnwys darpariaethau atodol a therfynol at ddibenion y Deddf.

Mae Erthygl 2 yn dwyn i rym y darpariaethau sy'n weddill yn Rhannau 2 i 4 a'r rhai sy'n ymwneud â thramgwyddau yn Rhannau 2 a 3, y broses o wneud gorchmynion ad-dalu rhent o ganlyniad i weithredu mangre y mae'n ofynnol ei thrwyddedu o dan y Rhannau hynny ond nad yw wedi'i thrwyddedu ac i'r ffaith bod tribiwnlys eiddo preswyl wedi awdurdodi gwneud gorchymyn interim i reoli annedd wag o dan Bennod 2 o Ran 4. Mae Erthygl 2 yn dwyn i rym hefyd fân ddiwygiadau neu ddiwygiadau canlyniadol yn Atodlen 15, a diddymiadau yn Atodlen 16 i'r Deddf a'r rhain yn gysylltiedig â'r darpariaethau eraill sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn.